

## PAFILIWN CHWARAEON PONT-Y-PANT

Yn dilyn difrod sylweddol gan goed i bafiliwn Pont-y-Pant yn ystod storm ym mis Hydref 2008, bu ymddiriedolwyr lleol 'Meysydd Chwarae Cymru' geisio, yn aflwyddiannus yn anffodus, i ennill cyllid i'w adfer. Gan ei fod yn gorlifo uwchben lefel y llawr pob oddeutu 10 mlynedd, does dim gwir werth iddo fel gweithdy neu unrhyw fath o ddefnydd. Mae'r llawr coed wedi pydru erbyn hyn hefyd. At hyn, erbyn hyn mae Dolwyddelan yn meddu ar yr holl gyfleusterau angenrheidiol ar gae'r ysgol yr oedd y safle hwn yn ei gynnig yn y 1930au.

Gofynnwyd i'r ymddiriedolwyr ystyried gwerthu'r adeilad, ond yn dilyn sgysiau gyda 'Meysydd Chwarae Cymru' bu iddyn nhw egluro y buasai'n rhaid i'r ymddiriedolwyr lleol gyflwyno achos i 'Feysydd Chwarae Cymru' yn datgan y buasai gwerthu'r adeilad er budd pennaf yr ymddiriedolaeth a'r safle chwarae. Ymhellach, pe *gaiff* ei ganiatáu, buasai'r ymddiriedolwyr lleol yn gyfrifol am werthu'r adeilad ac am yr holl gostau gweinyddol a chyfreithiol ynghlwm. Does yr un o'r ymddiriedolwyr yn fodlon cymryd yr awenau dros hyn.

Bu'r adeilad yn ddolur llygaid yn Nyffryn Lledr am dros 10 mlynedd erbyn hyn, ac mae hefyd yn beryg i unrhyw un fuasai'n mentro y tu mewn i'r adeilad i fwrw golwg. Mae gofyn i'r ymddiriedolwyr ystyried dymchwel yr adeilad fel yr unig opsiwn sy'n weddill. Mae'n bosib y bydd yr ymddiriedolwyr yn adeiladu lloches lai rhag y tywydd yn lle'r adeilad i'r rheiny sy'n defnyddio'r cae.

Os oes gan unrhyw drigolion LL25 safbwyntiau penodol ynghylch y mater hwn cyn inni wneud penderfyniad terfynol, ewch ati i sgwrsio gydag un o'r ymddiriedolwyr (Raymond Pritchard, Gwyn Roberts, Jane Oakley, Anthea Evans a Bob Valintine).



Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.